# Sut mae'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth yn dod â'r sector ynghyd i ddysgu a datblygu

06/06/2023




Taith gerdded a gyflwynwyd fel rhan o brosiect y Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.

Mae ei gymysgedd o gefnogaeth gan gymheiriaid, digwyddiadau ac adnoddau ar-lein yn helpu sefydliadau treftadaeth gyda phopeth o gydnerthedd ariannol a llywodraethu i gynhwysiad a sgiliau digidol.

Mae'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth yn gorff aelodaeth DU gyfan ar gyfer elusennau, sefydliadau a mentrau cymdeithasol, mawr a bach, sy'n ymwneud ag achub, adfer, ailddefnyddio a rheoli safleoedd hanesyddol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae wedi derbyn dau grant gan y Gronfa Treftadaeth gwerth cyfanswm o dros £460,000 i ehangu ei gynnig a chynyddu amrywiaeth ei aelodaeth.

## Rhannu arbenigedd

Esboniodd David Tittle, Prif Weithredwr y Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth: “Y brif ffordd rydyn ni'n gweithio yw drwy gefnogaeth gan gymheiriaid a dysgu gan gymheiriaid, dod â'n haelodau at ei gilydd mewn gwahanol ffyrdd - fel arfer drwy ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb - a rhannu profiadau, clywed gan arbenigwyr ac oddi wrth ein gilydd.

“Erbyn hyn - diolch i arian y Loteri Genedlaethol - am y tro cyntaf, rydyn ni'n ymchwilio i wneud rhaglen ddysgu fwy strwythuredig gyda charfan o aelodau. Mae gennym raglen allgymorth hefyd i nodi gwahanol grwpiau y mae angen i ni fod yn fwy rhagweithiol wrth estyn allan iddynt, ac mae hynny'n gweithio'n dda.”

Mae ei aelodaeth o 730 yn adlewyrchu'r gwaith allgymorth hwnnw yn gynyddol. Mae'n rhychwantu sefydliadau treftadaeth traddodiadol, grwpiau cymunedol a chelfyddydau sy'n defnyddio safleoedd hanesyddol, yn ogystal â'r rhai sy'n gofalu am gamlesi a gerddi. Mae hefyd yn cyfrif dros 160 o fyfyrwyr ymhlith ei aelodau.



Menyw ifanc yn rhannu ei sgiliau digidol.

## Cyfnewid sgiliau

At hynny – diolch i grant o £100,000 drwy ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth – mae wedi recriwtio 40 o wirfoddolwyr ifanc fel rhan o'i brosiect Arwyr Digidol.

Mae'r prosiect yn ymateb i ymchwil sy'n dangos bod y gweithlu treftadaeth yn heneiddio a bod pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ddod o hyd i waith neu brofiad yn y sector. Mae'n ymwneud â pharu gwirfoddolwyr digidol (18-30 oed) gyda sefydliadau sydd heb ddigon o gapasiti digidol.

Meddai Claire-Rose Canavan, Rheolwr y Prosiect Arwyr Digidol: “Mae ein haelodau wedi cael profiadau cadarnhaol iawn. Maen nhw wedi llwyddo i wneud pethau na allen nhw eu gwneud ar eu

pennau eu hunain - fel dadansoddi data, gwneud modelau 3D a gwella eu cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau - a dysgu sgiliau gan y gwirfoddolwyr.


“Ac mae'r gwirfoddolwyr wedi ennill profiad gwaith ar gyfer eu CVs, gwella eu sgiliau digidol eu hunain a chael cefnogaeth gyda hyfforddiant, offer a chostau teithio.”

## Awgrymiadau ac adnoddau

Mae pedair thema sy'n creu trafodaeth a cheisiadau am gymorth yn gyson ymhlith aelodau'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth.

Gwnaethon ni ofyn i David rannu ei brif awgrymiadau a'i ddolenni i adnoddau pellach:

- **Cyllid**: “Dysgwch sut i fod yn arbenigwr mewn Excel (neu recriwtiwch un fel ymddiriedolwr neu wirfoddolwr) a chreu model o sut mae'ch sefydliad yn gweithio fel busnes. Bydd yn eich galluogi i brofi senarios, ymateb i newid a chreu gwell cyllidebau ar gyfer ceisiadau ariannu.”
- **Cynhwysiad:** “Rydyn ni i gyd yn gwybod bod yn rhaid i ni roi croeso cynnes i bawb a chael gwared ar rwystrau corfforol a digidol, ond ni ddylai stopio yno. Yn aml mae cynhwysiad hefyd yn gofyn i ni estyn allan, datblygu partneriaethau a gwneud prosiectau ar y cyd gyda sefydliadau amrywiol.”
- **Llywodraethu a chynllunio olyniaeth**: “Yn gyntaf, gwnewch yn si?r ei fod yn syml ac yn bleserus i fod yn un o ymddiriedolwyr eich sefydliad. Yna hysbysebwch cyfleoedd i fod yn ymddiriedolwyr fel swyddi, a gwerthwch y cyfle'n gryf. Mae Getting on Board a Young Trustees Movement yn darparu cyngor ac adnoddau gwych i gynyddu amrywiaeth byrddau.”
- **Cynaladwyedd amgylcheddol:** “Rydyn ni'n gweithio gyda Fit for the Future i helpu ein haelodau i ddod o hyd i gyngor ar fod yn fwy effeithlon o ran ynni ac ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Ond ni ddylem fod yn rhy llym gyda'n hunain o ran ein hadeiladau hanesyddol drafftlyd. Trwy achub adeiladau sydd eisoes yn bodoli rydym yn cadw carbon corfforedig ac yn herio'r paradeim 'dymchwel ac ailadeiladu.”



Aelodau o'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn gweithdy cydweithredol.

## Cymerwch ran

Gallwch ddod o hyd i fwy o adnoddau a manylion aelodaeth ar wefan y Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio eich sgiliau digidol i helpu sefydliadau treftadaeth, cofrestrwch eich diddordeb yn y rhaglen wirfoddoli Arwyr Digidol trwy yrru e-bost at claire-rose.canavan@heritagetrustnetwork.org.uk.

Ac os credwch y gallai ein hariannu helpu eich sefydliad i roi rhai o adnoddau'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth ar waith, bwrw golwg ar sut y gallwn eich cefnogi chi.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.

## Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth

## Ariannu

Roman Baths, Bath © 2017 aroundworld/Shutterstock.

## Treftadaeth 2033 – ein strategaeth 10 mlynedd